Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr
Solicitors Regulation Authority

# Pecyn Briffio y Solicitors Qualifying Examination (SQE)

Awst 2020

# Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Cefndir ... 4
Y SQE a'r dull newydd o gymhwyso ... 7
Datblygu'r SQE ... 9
Diwyg y SQE ... 10
SQE1: Cwestiynau aml-ddewis gydag un ateb gorau ... 11
Peilot SQE1 ... 13
Gwaith peilot ar ôl SQE1 ... 15
Asesiadau sgiliau SQE2 ... 16
Peilot SQE2 ... 16
Gosod y safonau ar gyfer y SQE ... 17
Profiad gwaith cymhwyso ... 18
Goruchwylio a chymeradwyo ... 19
Cost ... 20
SQE yn Gymraeg ... 21
Asesiad Risg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ... 23
Camau nesaf a gwerthuso ... 26
Atodiad 1 – Llwybrau cyfredol tuag at dderbyniadau ... 29
Atodiad 2 – Opsiynau hyfforddi SQE posib ... 30
Atodiad 3 – Cerrig milltir SQE ... 31

# Cyflwyniad

1. Mae pobl yn defnyddio ac yn ymddiried ym mhroffesiwn cyfreithwyr yn ystod rhai o adegau anoddaf eu bywydau. Mae gwaith y proffesiwn yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau cyfreithiol sy'n cefnogi'r rheol gyfreithiol ac yn sail i drafodion cymdeithasol ac economaidd ar draws sectorau ac awdurdodaethau gwahanol.

2. Rydym yn gosod y safonau ar gyfer y proffesiwn er lles y cyhoedd. Mae'n hanfodol bod pawb yn gallu bod yn hyderus bod pobl sy'n ymuno â'r proffesiwn i gyd yn cwrdd â'r un safonau uchel. Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i ni fod yn siŵr bod mynediad i'r proffesiwn yn gyson, yn gyfredol ac yn addas at y diben.

3. Mae'r pecyn briffio hwn yn olrhain stori datblygiad y Solicitors Qualifying Examination (SQE) hyd yma, gan gwmpasu'r rhesymeg, yr amcan a manylion y gwaith sydd wedi'i wneud ar amrywiaeth o rannau pwysig o'r dull newydd hwn o gymhwyso. Byddwn yn diweddaru'r briff hwn yn rheolaidd.

4. Cymerwyd y camau cyntaf tuag at SQE yn 2011 pan gomisiynwyd yr Adolygiad o Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol. Mae'r gwaith sylweddol a wnaed yn ystod y blynyddoedd rhwng hynny wedi nodi problemau gyda'r system gymhwyso bresennol. Mae anghysondebau o ran sut mae llwybrau i'r proffesiwn yn cael eu hasesu ar hyn o bryd, sy'n golygu na allwn fod yn hyderus bod pawb yn bodloni'r un safonau ar y pwynt mynediad. Mae'r system bresennol hefyd yn ddrud ac yn anhyblyg, sy'n creu anawsterau i nifer o ddarpar gyfreithwyr, yn enwedig y rheini o gefndiroedd llai cefnog ac amrywiol.

5. Mae ein cynigion wedi'u cynllunio i ddarparu un asesiad trylwyr i bawb sydd eisiau ymuno â'r proffesiwn

6. Ein nod cyntaf yw sicrhau mwy o safonau cyson, uchel ar y pwynt mynediad.

7. Rydym hefyd yn awyddus i'r SQE arwain at ddatblygu llwybrau newydd ac amrywiol tuag at gymhwyso, sy'n ymateb i'r farchnad gwasanaethau cyfreithiol cyfnewidiol a hyrwyddo proffesiwn amrywiol drwy gael gwared ar rwystrau artiffisial a rhwystrau na ellir eu cyfiawnhau.

8. Rydym wedi ymrwymo i weithio gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol drwy gydol datblygiad y SQE, nid lleiaf drwy'r Grŵp Cyfeirio SQE. Mae'r aelodau'n cynnwys Cymdeithas y Cyfreithwyr, Is-adran y Cyfreithwyr Iau, Cyfreithwyr Cymorth Cyfreithiol Ifanc, Cymdeithas Athrawon y Gyfraith, Cymdeithas Ysgolheigion y Gyfraith a Chymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain.

9. Mae newid y ffordd y mae proffesiwn yn cymhwyso yn dasg gymhleth. Rydym wedi bod yn gwrando ac yn ymateb i'r pryderon y mae pobl wedi'u rhannu a byddwn yn parhau i wneud hynny.

# Cefndir

10. Yn gyntaf, gwnaethom nodi ein bwriad i ymgynghori ar newidiadau i'r ffordd rydym yn rheoleiddio addysg a hyfforddiant yn ein Datganiad Polisi Hyfforddi ar gyfer Yfory yn 2013, a gyhoeddwyd mewn ymateb i'r Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol.[1]

11. Amlinellodd ein datganiad awydd i symud oddi wrth:

> "…system lle rydym yn rhagnodi'r llwybrau at gymhwyso...i un lle rydym yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r priodoleddau y mae'n rhaid i gyfreithiwr newydd eu dangos o'r cychwyn cyntaf a chaniatáu llawer mwy o hyblygrwydd o ran sut ceir y cymwyseddau hynny."

12. Yn 2014, cyhoeddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB) Ganllaw Statudol. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

    - gofynion addysg a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar yr hyn mae'n rhaid i unigolyn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud adeg awdurdodi
    - darparwyr addysg a hyfforddiant yn meddu ar yr hyblygrwydd i benderfynu sut i ddarparu hyfforddiant, addysg a phrofiad sy'n bodloni'r canlyniadau sy'n ofynnol
    - rheoleiddwyr yn gosod dim cyfyngiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol amhriodol ar y niferoedd sy'n dod i mewn i'r proffesiwn.

13. Yn ystod 2014/15, fe wnaethom weithio gyda'r proffesiwn i ddiffinio'r cymwyseddau roeddem yn eu disgwyl wrth bob cyfreithiwr, a chyhoeddwyd Datganiad newydd o Gymhwysedd Cyfreithwyr ym mis Ebrill 2015. Yn cyd-fynd â'r datganiad, cafwyd:

    - Datganiad o Wybodaeth Gyfreithiol: sy'n nodi'r wybodaeth gyfreithiol sydd angen i gyfreithwyr ei dangos wrth gael mynediad.
    - Safonau Trothwy: sy'n rhagnodi'r safon ofynnol y mae'r rhaid i gymwyseddau yn y Datganiad Cymhwysedd ei dangos.

14. Gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn diffinio'r safonau ar gyfer gweithio fel cyfreithiwr a'r cymwyseddau y mae angen i ddarpar gyfreithwyr eu dangos er mwyn cymhwyso, ac y byddwn yn eu hasesu drwy'r SQE. Fe'u datblygwyd drwy ymgysylltu'n helaeth â grwpiau ffocws, grŵp Delphi o arbenigwyr, ymchwil gyhoeddus ar raddfa fawr ac

---

[1]Cyhoeddwyd Adroddiad Adolygiad Addysg a Hyfforddiant Cyfreithiol (LETR) ym mis Gorffennaf 2013. Fe'i comisiynwyd ar y cyd â'r SRA, Bwrdd Safonau'r Bar a Rheoleiddio CILEx. Adolygodd adroddiad LETR addysg a hyfforddiant cyfreithiol proffesiynol yng ngoleuni'r fframwaith rheoleiddio newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 a'r farchnad gyfnewidiol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol. Ymhlith y materion a nododd gyda'r system gyfredol oedd yr angen am fwy o hyblygrwydd mewn gofynion hyfforddi a dull mwy trylwyr o osod safonau.

ymgynghoriad ffurfiol. I gyd, ymgysylltwyd â thua 2,000 o ddefnyddwyr, cyfreithwyr, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill.

15. Ar ôl diffinio safonau ymarfer cyfreithwyr, aethpwyd ati i adolygu’r ffordd orau o asesu'r safonau hynny ar y pwynt derbyn. Ein hamcanion oedd sicrhau safonau trylwyr ac ehangu mynediad i'r proffesiwn. Nodwyd nifer o broblemau gyda'r dull presennol o reoleiddio addysg a hyfforddiant i ddarpar gyfreithwyr.

16. Nodwyd anghysondebau yn y system bresennol:

    a) Mae yna lwybrau derbyn gwahanol fel cyfreithiwr, sy’n cael eu hasesu mewn ffyrdd gwahanol – gweler Atodiad 1.

    b) Ar y llwybrau gradd i ymgeiswyr domestig, mae dros 110 o ddarparwyr yn cynnig yr asesiadau cyfreithiol proffesiynol rydym yn eu nodi. Mae pob un yn gosod ac yn marcio eu hasesiadau eu hunain. Gwyddom fod chwyddiant graddau sylweddol ac anesboniadwy mewn addysg uwch.[2] Rydym hefyd yn gwybod bod cyfraddau pasio yr Arholiad Proffesiynol Cyffredinol (CPE)/Diploma Graddedig yn y Gyfraith (GDL) a Chwrs Ymarfer y Gyfraith (LPC) yn amrywio o dan 40% i 100%, ond nid ydym yn gwybod y rhesymau pam.

    c) Ar ddiwedd y Cyfnod o Hyfforddiant Cydnabyddedig (PRT), nid oes unrhyw feincnodi neu safoni er mwyn sicrhau bod penderfyniadau i gymeradwyo hyfforddeion yn cael eu cymryd ochr yn ochr â safon gyson. Hynny yw, ychydig o hyfforddeion sydd ddim yn cael eu cymeradwyo.

17. Gwnaethom hefyd gydnabod bod y system bresennol yn ddrud ac yn anhyblyg. Gall darpar gyfreithwyr fynd yn sownd ar y llwybr derbyn, am resymau heblaw eu gallu i ymarfer, fel cost cyllido hyfforddiant (gall y LPC gostio hyd at £17,300 fyn Awst 2020)[3] a mynediad at gytundebau hyfforddi.

18. Mae’r tabl isod yn dangos ffigurau dilyniant ar gyfartaledd drwy’r system bresennol, rhwng 2011 a 2019.[4]

| **Dechrau gradd gymwys yn y gyfraith** | **Dechrau CPE** | **Dechrau LPC** | **Dechrau PRT (cytundeb hyfforddi)** | **Derbyn fel cyfreithiwr drwy’r llwybrau hyn** |
|---|---|---|---|---|
| 23,413 | 4,499 | 9,978 | 5,757 | 5,407 |

[2] Dadansoddiad y Swyddfa Fyfyrwyr o ddosbarthiad graddau dros amser, Rhagfyr 2018; Dadansoddiad Ystadegol Cymdeithas y Gyfraith 2018 tudalen 30
[3] Er enghraifft, cofrestriadau fel canran o'r ceisiadau LPC a CPE llawn amser yn 2018 oedd 85.6% (CPE) a 94.9% (LPC) ar gyfer y rhai a ariennir gan eu darparwr hyfforddiant/cyflogwr; a 58.7% (CPE) a 72.3% (LPC) ar gyfer y rhai sy'n cyllido eu hunain, neu'n cael eu hariannu gan riant/gwarcheidwad: Adroddiad Blynyddol y Central Applications Board Ltd 2018.
[4] Mae’r data ar gyfer graddau cymwys yn y gyfraith yn cwmpasu’r cyfnod 2014 a 2019. Does dim data ar gael cyn 2014.

19. Ystyriwyd amrywiaeth o ddewisiadau asesu gwahanol:

- diweddaru’r system bresennol (cymwysterau penodol a gynigir gan ddarparwyr awdurdodedig) i adlewyrchu’r Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr
- caniatáu i ddarparwyr hyfforddiant gynnig unrhyw raglen hyfforddi ac asesu a oedd yn bodloni gofynion y Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr
- sicrhau safonau drwy asesiad canolog, yn lle rhagnodi llwybrau.

Daeth ein gwerthusiad i’r casgliad mai'r trydydd opsiwn oedd yr unig un a allai gyflwyno sicrwydd gwell o ran safonau a mwy o hyblygrwydd hyfforddiant.

20. Archwiliwyd yr opsiynau a'n cynigion datblygol i gyflwyno'r SQE mewn tri ymgynghoriad yn 2015, 2016 a 2017. Siaradwyd â dros 10,000 o bobl a derbyniwyd dros 540 o ymatebion i’n tri ymgynghoriad. Adolygwyd ac addaswyd ein cynigion wrth ymateb i’r adborth. Er enghraifft, gwnaethom gadw’r gofyniad am ddwy flynedd o brofiad ymarferol cyn cymhwyso; gwnaethom ymestyn y cyfnod gweithredu o 2020 i 2021; a darparwyd gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut gallai'r asesiad arfaethedig weithio.

21. Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd ein Bwrdd y byddai’n bwrw ymlaen â'n cynnig i gyflwyno'r dull newydd o gymhwyso.

22. Yn unol â’r Datganiad Polisi Hyfforddi ar gyfer Yfory a'r cynigion yr ymgynghorwyd arnyn nhw, mae'r dull newydd yn symud pwyslais ein proses reoleiddio o nodi llwybrau i sicrhau canlyniadau.

23. Mae'r dull newydd yn cydnabod bod safonau yn y sector cyfreithiol yn hollbwysig. Ein rôl ni yw sicrhau bod gan y cyhoedd a chyflogwyr ffydd bod y rhai sy'n ymuno â'r proffesiwn yn addas i ymarfer. Mae hefyd yn cydnabod bod lleihau rhwystrau rheoleiddio a chyflwyno hyblygrwydd yn rhoi cyfle i’r ymgeiswyr mwyaf talentog gymhwyso, ac felly'n ehangu mynediad ac yn codi safonau.

24. Y canlyniadau a fwriadwyd o gyflwyno un asesiad cyffredin i bob darpar gyfreithiwr, waeth beth fo’r llwybr a gymerir, yw:

- mwy o sicrwydd o safonau cyson, uchel ar y pwynt derbyn
- datblygu llwybrau newydd ac amrywiol at gymhwyso, sy'n ymateb i'r farchnad gwasanaethau cyfreithiol cyfnewidiol a hyrwyddo proffesiwn amrywiol drwy gael gwared ar rwystrau artiffisial a rhwystrau na ellir eu cyfiawnhau.

# Y SQE a’r dull newydd o gymhwyso


25. Bydd y dull newydd o gymhwyso yn cynnwys pedair elfen. Erbyn i ymgeiswyr geisio cael eu derbyn fel cyfreithwyr, rhaid iddynt fod:

a) wedi pasio dau gam yr asesiad SQE

b) wedi derbyn gradd neu gymhwyster cyfwerth, neu wedi cael profiad cyfatebol

c) wedi cwblhau cyfnod o ddwy flynedd o leiaf o brofiad gwaith cyfreithiol cymwys

d) bod o gymeriad ac addasrwydd boddhaol, i'w asesu adeg derbyn.




26. Fel ag y mae ar hyn o bryd, bydd y rhai sydd heb radd a’r rheini sydd heb radd yn y gyfraith, yn gallu cymhwyso fel cyfreithiwr.[5] Rydym yn disgwyl y gall y proffesiwn barhau i fod yn broffesiwn i raddedigion yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, er ein bod yn gobeithio gweld ymgeiswyr yn dechrau cymhwyso drwy'r llwybr prentisiaeth newydd. Ond bydd y SQE yn ein galluogi i wneud yn siŵr bod pawb sy’n cael eu derbyn fel cyfreithwyr yn gallu dangos bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau rydyn ni'n eu nodi yn y Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr.

27. I grynhoi, bydd y SQE o fudd i’r:

**Cyhoedd –** sy’n gallu ymddiried mewn cyfreithwyr, ym mha bynnag ffordd y cawsant eu hyfforddi, eu bod yn bodloni’r un safonau uchel. Mewn arolwg, dywedodd 79% o aelodau’r cyhoedd y dylai pawb basio’r un arholiad terfynol i ddod yn gyfreithiwr, a

[5] Mae tua 6% o gyfreithwyr yn cymhwyso drwy’r llwybr CILEx ac efallai na fydd ganddynt radd. Mae tua 14.5% o gyfreithwyr yn cymhwyso drwy’r Cynllun Trosglwyddo Cyfreithwyr Cymwysedig. Mae tua 80% yn cymhwyso drwy gwblhau QLD/GDL, LPC a chytundeb hyfforddiant. Mae gan tua 55% o fyfyrwyr LPC radd yn y gyfraith a 45% heb radd yn y gyfraith.

dywedodd 76% y byddai ganddynt fwy o hyder mewn cyfreithwyr pe baent i gyd wedi pasio'r un arholiad terfynol.[6]

**Cwmnïau cyfreithiol –** a fydd â gwarant gwell o ran safonau ac a allai elwa o ehangu'r gronfa dalent o bosib. Bydd ganddynt hefyd fwy o hyblygrwydd i deilwra eu hyfforddiant mewn ffordd sy'n gweithio orau i'w hyfforddeion ac i ddiwallu eu hanghenion busnes.

**Darparwyr addysg –** sy'n gallu defnyddio eu harbenigedd eu hunain i hyfforddi ymgeiswyr SQE yn effeithiol ac yn gallu ymateb yn gyflym i ddatblygiadau mewn gwasanaethau cyfreithiol, fel technoleg gyfreithiol, sydd ddim yn dod o fewn y SQE.

**Darpar gyfreithwyr –** sy'n gallu gwneud dewisiadau, yn seiliedig ar dystiolaeth glir, ynglŷn â sut i hyfforddi a pha ddarparwyr i'w dewis. Bydd yn rhoi cyfle teg i'r ymgeiswyr gorau, o bob cefndir, gymhwyso fel cyfreithiwr. Mae'n bwysig nodi y bydd y SQE nid yn unig yn dilysu gwahanol lwybrau i'r proffesiwn, bydd hefyd yn cael gwared ar unrhyw oedi o ran y cytundeb hyfforddi.

28. Mae'r rhain yn fuddion pwysig y gobeithiwn y byddant yn deillio o'r SQE. Serch hynny, mae yna faterion cymdeithasol ehangach na all y SQE eu datrys a gwyddom fod nifer o ffactorau, gan gynnwys cefndir cymdeithasol, yn effeithio ar amrywiaeth y proffesiwn cyfreithiol.[7] [8] Er enghraifft, mae patrwm o berfformiad gwahaniaethol yn ôl nodwedd warchodedig a chefndir cymdeithasol ar draws addysg uwch ac asesiad proffesiynol.[9] Mae'n hollbwysig bod y SQE yn deg ac yn ddiduedd, serch hynny mae'n debygol y bydd y patrwm hwn yn parhau, fel mannau eraill ac yn holl asesiadau hyfforddi cyfreithwyr ar hyn o bryd. Ceir arferion gwael yn y gweithle hefyd mewn gwasanaethau cyfreithiol – fel nifer o sectorau eraill - ac anghydraddoldebau sylfaenol mewn cymdeithas, gan gynnwys materion symudedd cymdeithasol a gwahaniaethu, na all y SQE fynd i'r afael â nhw.

29. Gall y SQE ddarparu asesiad teg a thrylwyr o gymhwysedd yn ystod y pwynt mynediad, beth bynnag bo'r llwybr a gymerwyd, yn unol â'n amcan i gael mwy o sicrwydd o safonau cyson, uchel ar y pwynt mynediad. Rydym hefyd am iddo arwain at ddatblygu llwybrau newydd ac amrywiol at gymhwyso, sy'n ymateb i'r farchnad gwasanaethau cyfreithiol cyfnewidiol a hyrwyddo proffesiwn amrywiol drwy gael gwared ar rwystrau artiffisial a rhwystrau na ellir eu cyfiawnhau. Fel rhan o hynny, gall gynnig cyfle gwell i fonitro ac ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd dros amser, a fydd yn gwneud cyfraniad positif i broffesiwn cryf ac amrywiol.

---

[6] Arolwg ComRes o 1866 o oedolion yng Nghymru a Lloegr ym mis Awst 2016.

[7] Adroddiad Grŵp Bridge Introduction of the Solicitors Qualifying Examination: Monitoring and Maximising Diversity, Mawrth 2017. Gweler ffigur 2: 'Factors affecting diversity in the legal profession', tudalennau 10-11.

[8] Gweler rhagor ym mharagraff 74, gan gynnwys y cyfeirnod yn nhroednodyn 31: Universities UK: Closing the Gap.

[9] Authorisation and monitoring activity 2016/17.

# Datblygu'r SQE

30. Ym mis Mawrth 2018, cymeradwyodd y LSB fframwaith ar gyfer ein gofynion derbyn newydd a'r Rheoliadau SQE. Bydd ail gais yn cael ei wneud er mwyn cymeradwyo trefniadau rheoliadol pellach, unwaith bydd diwyg y SQE wedi'i gwblhau.

31. Ym mis Gorffennaf 2018, penodwyd Kaplan i ddatblygu a chyflwyno'r SQE. Gwnaed y penodiad yn dilyn proses gaffael gystadleuol blwyddyn o hyd. Mae Kaplan yn darparu addysg, hyfforddiant ac asesu ar draws gwasanaethau proffesiynol, gan gynnwys y gyfraith, gwasanaethau ariannol, cyfrifyddiaeth a bancio. Mae ganddo brofiad uniongyrchol o asesu o fewn y sector cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr fel darparwr y Cynllun Trosglwyddo Cyfreithwyr Cymwysedig (QLTS). Ni fydd Kaplan yn darparu hyfforddiant ar gyfer y SQE ac mae wedi gwerthu ei adran hyfforddi cyfreithiol i BARBRI International.

32. Hyd yma, mae 37 o sefydliadau wedi cofrestru ar gyfer y rhestr SQE o ddarparwyr hyfforddi ar ein gwefan. Mae'r rhain yn amrywio o brifysgolion traddodiadol (Ysgol y Gyfraith Nottingham, Prifysgol Nottingham Trent; City, Prifysgol Llundain; Prifysgol De Montford) i ddarparwyr adnabyddus ym maes addysg gyfreithiol broffesiynol (Prifysgol BPP, Prifysgol y Gyfraith) a sefydliadau preifat (Gwasg Prifysgol Rhydychen, BARBRI International).

33. Yn ôl ein haddewid yn y tri ymgynghoriad cyhoeddus[10], rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid ar ddatblygu'r SQE. Rydym wedi:

- Sefydlu Grŵp Cyfeirio SQE, ac mae'r aelodau'n cynnwys: Cymdeithas y Cyfreithwyr, Is-adran y Cyfreithwyr Iau, Cyfreithwyr Cymorth Cyfreithiol Ifanc, Cymdeithas Athrawon y Gyfraith, Cymdeithas Ysgolheigion y Gyfraith a Chymdeithas y Gyfraith Dinas Llundain.

- Llunio grŵp LinkedIn sy'n agored i bawb. Ar hyn o bryd, mae gan y grŵp 1,740+ o aelodau o'r proffesiwn, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill.

- Cynnal gweminarau SQE rheolaidd, sydd wedi'u gwylio gan dros 22,000 amseroedd.

- Dod ag arbenigwyr pynciau at ei gilydd i roi cyngor ar agweddau technegol y SQE.

- Cynnal arolygon ar agweddau o'r SQE, gan gynnwys y Fanyleb Asesu ac amseriad y ffenestri asesu. Derbyniwyd dros 1,200 o ymatebion i'n harolygon.

- Cynnal trafodaethau bord gron i drafod asesu'r sgiliau yn SQE1 a 2.

---

[10] Ymateb i'r ail ymgynghoriad, Ebrill 2017; a phara, 24, ymateb i'r trydydd ymgynghoriad SQE, Tachwedd 2017.

- Cynnal cynadleddau blynyddol gyda darparwyr hyfforddiant, sydd wedi denu tua 100 o gynadleddwyr bob blwyddyn.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â darparu'r SQE yn Gymraeg (gweler mwy isod).

34. Mae'r grwpiau hyn yn ein helpu i ddatblygu cynnwys a fformat yr asesiadau SQE, fel y nodwyd drwy Fanyleb Asesu'r SQE. Rydym yn disgrifio ein gwaith o dreialu a phrofi'r SQE isod.

## Diwyg y SQE

35. Mae'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd y SQE yn eu hasesu fel y'u nodwyd ym mharagraff 13. Dyma'r set o gymwyseddau a nodir yn ein Datganiad o Gymhwyster Cyfreithwyr a'r wybodaeth a nodir yn y Datganiad o Wybodaeth Gyfreithiol. Byddant yn cael eu hasesu i'r safon a nodir yn y Safon Trothwy. Ymgynghorwyd yn eang ynglŷn â'r safonau ac roedd cefnogaeth eang i'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau arfaethedig. Bydd moeseg broffesiynol yn treiddio drwy'r asesiad. Bydd cwestiynau moesegol sydd heb eu crybwyll[11] yn cael eu cynnwys yn SQE1 a 2. Mae hyn yn welliant sylweddol i'r sefyllfa bresennol: nid yw'n ofynnol dysgu moeseg mewn Gradd Gymwys yn y Gyfraith (QLD) neu GDL.

[11] Mae "heb eu crybwyll" yn golygu na fydd cwestiwn yn cael ei nodi i ymgeiswyr fel un sy'n ymwneud â moeseg neu ymddygiad proffesiynol. Wrth ymarfer, bydd gofyn iddynt sylwi bod patrwm ffeithiau yn arwain at fater moesegol.

36. Bydd y SQE yn asesu'r cymwyseddau hyn mewn dau gam. Mae SQE1 yn asesu gwybodaeth gyfreithiol weithredol (FLK); mae SQE2 yn asesu sgiliau cyfreithiol ymarferol.

| SQE1 | SQE2 |
|---|---|
| **Asesiadau Gwybodaeth Gyfreithiol Weithredol (FLK)**<br><br>FLK1: Cyfraith ac Ymarfer Busnes, Datrys Anghydfodau, Contract, Camwedd, System Gyfreithiol Cymru a Lloegr, y Gyfraith Gyfansoddiadol a Gweinyddol a Chyfraith yr UE; a Gwasanaethau Cyfreithiol.<br><br>FLK2: Ymarfer Eiddo, Ewyllysiau a Gweinyddu Ystadau, Cyfrifon Cyfreithwyr, Cyfraith Tir, Ymddiriedolaethau, Cyfraith ac Ymarfer Troseddol<br><br>Ceir cwestiynau moesegol drwyddi draw yn FLK1 ac FLK2 | **Asesiadau Sgiliau Cyfreithiol Ymarferol**<br><br>Asesir yr ymgeiswyr yn y chwe sgil canlynol:<br><br>• Cyfweld â chleientiaid a nodyn presenoldeb/dadansoddi'r gyfraith<br>• Eiriolaeth<br>• Dadansoddi achosion a materion<br>• Ymchwil gyfreithiol<br>• Ysgrifennu cyfreithiol<br>• Drafftio cyfreithiol<br><br>Wedi'u samplu ar draws y pum cyd-destun ymarfer canlynol:<br><br>• Ymgyfreitha Troseddol<br>• Datrys Anghydfodau<br>• Ymarfer Eiddo<br>• Ewyllysiau a Diffyg Ewyllys, Gweinyddu ac Ymarfer Profiant<br>• Rheolau a gweithdrefnau sefydliadau busnes.<br><br>Ceir pwyntiau moeseg ac ymddygiad proffesiynol sydd heb eu crybwyll drwyddi draw |

## SQE1: Cwestiynau aml-ddewis gydag un ateb gorau

37. Bydd Asesiadau FLK yn SQE1 yn cynnwys cwestiynau aml-ddewis gydag un ateb gorau. Mae cwestiynau aml-ddewis yn cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn asesiadau proffesiynau eraill (er enghraifft, mewn meddygaeth, fferylliaeth, cyfrifyddiaeth). Maen

nhw hefyd yn cael eu defnyddio mewn cyd-destun cyfreithiol, mewn sefydliad prifysgol ac archwiliadau trwyddedu proffesiynol uchel (er enghraifft, o fewn y LLB, ar y LPC, ar y Cwrs Hyfforddi Bar Proffesiynol ac fel rhan o Arholiad Bar Aml-dalaith yr Unol Daleithiau, gan gynnwys Bar Efrog Newydd).

38. Mae'r cwricwlwm gwybodaeth gyfreithiol i'w asesu drwy'r FLK yn SQE1 yn cynnwys yr holl Sylfeini Gwybodaeth Gyfreithiol gyfredol sydd angen eu dysgu ar y QLD/GDL a phynciau craidd y LPC, a Gwrthdaro mewn Cyfreithiau yn ychwanegol. Fel y nodwyd, bydd cwestiynau am foeseg proffesiynol yn treiddio drwy bob rhan o'r asesiad. Mae hyn yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r system bresennol, lle nad yw moeseg yn rhan o gam academaidd yr hyfforddiant. Ceir mwy o fanylion am gyfraith sylwedd yn y Cyd-Ddatganiad cyfredol.

39. Mae'r asesiad FLK yn integreiddio cyfraith sylwedd a gweithdrefnol. Mae wedi'i gynllunio i asesu gallu ymgeiswyr i:

   a) Nodweddu natur problem gyfreithiol (mae'r asesiadau'n cynnwys amrywiaeth o bynciau cyfreithiol gwahanol).

   b) Adnabod egwyddorion cyfreithiol perthnasol.

   c) Defnyddio egwyddorion cyfreithiol i sefyllfaoedd ffeithiol, yn debyg i'r math o achosion y gallai cyfreithiwr sydd newydd gymhwyso ddod ar eu traws yn ymarferol.

   d) ch) Dod i benderfyniad, er enghraifft, ar bwynt o gyngor neu gamau nesaf mewn trafodiad.

40. Gall cwestiynau aml-ddewis gydag un ateb gorau:

a) fesur y sgiliau gwybyddol rydym yn awyddus i'w profi'n effeithiol[12]

b) rhoi gwell sicrwydd o ehangder gwybodaeth ymgeisydd na nifer fach o gwestiynau traethawd: mae gwneud tri chwestiwn traethawd ar bwnc cynyddu'r risg bod ymgeisydd yn "lwcus" o ran y pynciau sy'n codi mewn arholiad ac nad yw, mewn gwirionedd, yn meddu ar yr ystod o wybodaeth rydym yn ei disgwyl gan gyfreithiwr

c) gael ei farcio'n wrthrychol

ch) ein galluogi i fabwysiadu prosesau gosod safonau modern, sydd wedi'u seilio ar ystadegau, i sicrhau lefel uchel o gywirdeb mewn penderfyniadau asesu ac asesu cyson dros amser, ar draws eisteddiadau olynol a rhwng gwahanol ymgeiswyr.

Yn gyffredinol, byddant yn cyfrannu at asesiad trylwyr o ansawdd uchel.

---

[12] Datblygu Cwestiynau Amlddewis o Ansawdd Uchel ar gyfer Asesiadau mewn Addysg Gyfreithiol, Susan Case a Beth Donahoe, *Journal of Legal Education*, Medi 2008.

41. I wireddu’r manteision hyn, mae’n rhaid i’r cwestiynau fod wedi’u hysgrifennu’n dda. Gyda chwestiynau aml-ddewis gydag un ateb gorau, mae angen gwaith drafftio arbenigol i wneud yn siŵr eu bod yn asesu’r sgiliau gwybyddol iawn yn gywir, ac nid cofio gwybodaeth yn unig. Mae hyn yn golygu buddsoddiad amser ac arbenigedd sylweddol, yn ogystal â phrofi’r cwestiynau drafft.

42. Nid cwestiynau aml-ddewis fydd yr unig ddull asesu yn y SQE. Nid y rhain fydd yr unig ddull asesu ar gyfer gwybodaeth gyfreithiol ymarferol ychwaith. Ni allant asesu ystod y sgiliau cyfreithiol a nodir yn y Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr y mae’n ofynnol i ddarpar gyfreithwyr eu dangos. Mae’r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y gallu i gyflwyno dadl resymegol ac i gyfathrebu’n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae’r rhain yn gymwyseddau hollbwysig y mae’n rhaid i bob cyfreithiwr feddu arnynt.

43. Byddwn yn eu hasesu drwy gyfres o ymarferion sgiliau, y ceir disgrifiad manylach isod (paragraffau 51-53). Mae ein Manyleb Asesu yn cynnwys dadansoddiad o elfennau’r SQE a fydd yn asesu pob un o’r cymwyseddau yn y Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr, fel bod pob cymhwysedd yn cael eu hasesu ar draws y SQE[13]. Ac rydym yn ei gwneud yn glir y bydd SQE2 yn asesu sgiliau cyfreithiol ymarferol yr ymgeiswyr a'r modd y maent yn gweithredu gwybodaeth gyfreithiol: ni all llythyr cynghori a ysgrifennwyd yn brydferth ond sy'n anghywir ar y gyfraith fod yn gymwys.

44. Bydd y SQE yn cael ei ddarparu drwy gyfres o ganolfannau asesu diogel. Bydd pob prawf ysgrifenedig ar gael yng Nghymru a Lloegr ac yn rhyngwladol drwy rwydwaith o ganolfannau profi Pearson VUE. I ddechrau, dim ond yng Nghymru a Lloegr, mewn tair i bum canolfan, y bydd yr asesiadau sgiliau llafar ar gael, fel y gellir rheoli a safoni'r asesiadau yn drylwyr. Dros amser, fodd bynnag, rydym yn bwriadu cyflwyno'r asesiadau llafar yn rhyngwladol hefyd.

## Peilot SQE1

45. Ym mis Mawrth 2019, gwnaethom gynnal peilot o SQE1. Cymerodd dros 300 o ymgeiswyr ran mewn 46 o ganolfannau profi yng Nghymru a Lloegr a thramor. Roedd ystod ac amrywiaeth yr ymgeiswyr yn cynrychioli yn fras broffil yr ymgeiswyr rydym yn disgwyl i gymryd yr asesiad byw. Roedd y model peilot yn cynnwys tri papur cwestiynau 120 FLK, ac asesiad o ymchwil cyfreithiol a sgiliau ysgrifennu sylfaenol. Roedd cynnwys asesiad sgiliau SQE1 yn mynd i’r afael ag awydd rhai cyflogwyr i ddysgu ac asesu lefel sylfaenol o sgiliau cyfreithiol cyn y profiad gwaith cymhwyso (QWE).

[13] Atodiad 3, SQE1 Manyleb Asesu Gwybodaeth Gyfreithiol Gweithredol ac Atodiad 5, SQE2 Manyleb Asesu peilot.

46. Profodd y peilot a oedd diwyg asesiad SQE1 yn deg, yn ddibynadwy ac yn briodol gadarn. Cadarnhaodd Kaplan[14] a'n hadolygydd annibynnol[15] fod y peilot wedi bod yn ymarfer defnyddiol a dilys a gyflawnodd ein nodau:

a) dangosodd ei bod yn bosibl cynllunio asesiad cadarn a hylaw o'r FLK

b) roedd y mwyafrif o ymgeiswyr peilot yn bositif gyda'u hadborth

c) aeth agweddau gweithredol y peilot yn dda

47. Yng ngoleuni'r peilot, fe wnaeth Kaplan a'n hadolygydd annibynnol argymell newidiadau mewn dau faes:

a) Fe wnaethant argymell diwygio'r diwyg o dri asesiad 120 cwestiwn i ddau asesiad 180 cwestiwn. Nid yw 'r newid hwn yn effeithio ar gwmpas y cwricwlwm. Serch hynny, bydd symud i ddau asesiad yn gwella dibynadwyedd a chywirdeb yr asesiad, felly gallwn fod yn fwy hyderus ynglŷn â phenderfyniadau pasio/methu ar y ffin. Mae hyn yn hollbwysig mewn arholiad trwyddedu cenedlaethol lle mae'n rhaid amddiffyn defnyddwyr. Edrychodd Kaplan hefyd ar effaith iawndal[16] wrth symud tuag at fodel gyda dau rwystr. Fe wnaethant ddarganfod nad oedd patrwm iawndal amlwg rhwng gwahanol feysydd. Gwnaeth mwyafrif yr ymgeiswyr a wnaeth yn dda mewn pynciau unigol yn dda ar draws yr asesiad yn gyffredinol. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr a berfformiodd yn wael mewn pynciau unigol yn perfformio'n wael ar draws yr asesiad yn gyffredinol. Felly, rydym wedi penderfynu derbyn yr argymhelliad hwn.

b) Dywedodd Kaplan hefyd nad oedd canlyniadau'r peilot wedi rhoi sail gadarn o ran bwrw ymlaen â'r asesiad sgiliau arfaethedig yn SQE1. Y broblem sylfaenol oedd nad oedd y nifer fach o ymarferion sgiliau a gynhwyswyd yn yr asesiad yn galluogi penderfyniadau pasio/methu digon cywir ar y ffin. Yn unol â hynny, argymhellodd Kaplan i beidio ag asesu sgiliau yn ystod SQE1, ond yn hytrach dibynnu ar yr asesiadau sgiliau yn SQE2. Mae'n bwysig nodi hefyd, yn y garfan beilot, perfformiodd ymgeiswyr o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn wael yn yr asesiad hwn, yn unol â'r perfformiad gwahaniaethol yn ôl ethnigrwydd a geir mewn rhannau eraill o addysg uwch ac mewn asesiadau proffesiynol, gan gynnwys yn y system bresennol o gymhwyso cyfreithwyr. Roedd hyn yn golygu bod unrhyw wallau o ran penderfyniadau pasio/methu yn effeithio'n anghymesur arnynt.[17]

---

[14] Adroddiad Kaplan ar Gam Peilot SQE1
[15] Adroddiad ar Gam Peilot SQE 1
[16] Iawndal yw lle gellir digolledu perfformiad gwael mewn un maes drwy berfformio'n well mewn maes gwahanol, fel bod ymgeisydd yn llwyddo yn yr asesiad yn gyffredinol.
[17] Manylir ar y mater hwn yn fanylach isod.

# Gwaith peilot ar ôl SQE1

48. Ers y peilot, rydym wedi cyhoeddi'r fanyleb asesu derfynol ar gyfer y FLK a hap-gwestiynau. Rydym yn gwybod bod rhai cyflogwyr yn gwerthfawrogi asesiad sgiliau yn ystod SQE1. Yn ystod hydref 2019, rydym felly wedi trafod dulliau eraill gyda Kaplan a rhanddeiliaid, gan gynnwys amrywiaeth o gwmnïau cyfreithiol bach a mawr. Mae cwmnïau sy'n bwriadu cyflogi hyfforddeion ar ôl SQE1 ac y byddant yn cyflwyno eu hymgeiswyr ar gyfer SQE2 yn ystod eu QWE, wedi mynegi eu hawydd i gynnwys sgiliau yn SQE1. Roedd yn well gan y rheini, yn bennaf cwmnïau'r ddinas, oedd yn bwriadu cyflwyno cwrs hyfforddi i'w hyfforddeion cyn QWE, gan gynnwys SQE1 a 2, dynnu sgiliau o SQE1.

49. Bellach rydym hefyd wedi gwirio canlyniadau peilot SQE1 o'u cymharu â chanfyddiadau'r asesiadau sgiliau yn y peilot SQE2 (gweler isod).

50. Ym mis Mehefin 2020, ystyriodd ein Bwrdd holl ffactorau a chasgliadau'r cynlluniau peilot, a phenderfynodd y dylid asesu sgiliau drwy SQE2, ac na fyddai'n briodol cynnwys asesiad sgiliau yn SQE1. Dyma'r rhesymau dros benderfyniad ein Bwrdd:

- Diben y SQE yw sicrhau bod y rhai yr ydym yn eu derbyn yn dangos y safonau uchel y mae eu hangen er mwyn ymarfer fel cyfreithiwr. Nid yw asesu'r sgiliau sy'n ofynnol i unigolion sy'n ymarfer mewn capasiti heb gymhwyster yn rhan o ddiben y SQE. Mae'n anochel y bydd y sgiliau hynny'n amrywio o rôl i rôl, ac o ffyrm i ffyrm.

- Os oes gan fusnesau ofynion sgiliau ar gyfer staff sydd heb gymhwyster, y lle priodol i asesu eu gofynion yw drwy eu prosesau recriwtio a dethol eu hunain.

- Pe bai sgiliau SQE1 yn cael eu pennu ar y safon derbyn, byddai hynny'n dyblygu sgiliau SQE2 ac felly byddai'n ddiangen.

- O gofio ein bod yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn ymgeisio yn SQE1 beth amser cyn cael eu derbyn, ac y gall fod arnynt angen rhywfaint o brofiad gwaith i helpu i ddatblygu'r sgiliau hynny, gallai asesiad sgiliau SQE1 a osodir ar ddiwrnod un safon cyfreithiwr greu rhwystr nad oes gennym gyfiawnhad rheoleiddiol drosto.

- Gallai'r rhwystr hwnnw osod ymgeiswyr y mae arnyn nhw angen mynediad at brofiad gwaith o dan anfantais anghymesur i ddatblygu sgiliau cyfathrebu proffesiynol.

- Byddai'r asesiad sgiliau SQE1 yn cynyddu cost a baich y SQE heb gyfiawnhad rheoleiddio clir.

# Asesiadau sgiliau SQE2

51. Mae SQE2 yn asesu sgiliau:

    - Cyfweld â chleientiaid a nodyn presenoldeb/dadansoddi’r gyfraith
    - Eiriolaeth (hawl i ymddangos yn y llys)
    - Dadansoddi achosion a materion
    - Ymchwil gyfreithiol
    - Ysgrifennu cyfreithiol
    - Drafftio cyfreithiol.

    Mae’r sgiliau hyn yn cyfateb i’r cymwyseddau a nodir yn y Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr. Drwy gydol ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid, cafwyd consensws eang mai'r rhain yw'r sgiliau craidd priodol y dylai darpar gyfreithwyr eu dangos ar y pwynt mynediad. Yn ddiweddar rydym wedi gorffen manyleb asesiad SQE2, gan gymryd y ystyriaeth adborth y rhanddeiliaid, gan gynnwys 49 o ymatebion i arolwg.

52. Asesir y sgiliau drwy gyfres o dasgau (gorsafoedd) sy'n adlewyrchu'r math o waith y byddai cyfreithiwr sydd newydd gymhwyso yn ei wneud yn ymarferol. Bydd 16 gorsaf yn SQE2. Bydd 14 o orsafoedd yn cynnwys ymarferion ysgrifenedig. Asesir dwy sgil (eiriolaeth a chyfweld â chleientiaid) drwy gyfanswm o bedwar asesiad chwarae rôl llafar.

53. Fel y dywedwyd, bydd yr asesiadau yn asesu sgiliau a’r ffordd y mae ymgeiswyr yn cymhwyso gwybodaeth gyfreithiol. Darperir deunyddiau cyfreithiol priodol i'r ymgeiswyr. Disgwylir i ymgeiswyr ddeall a chymhwyso egwyddorion cyfreithiol perthnasol er mwyn gallu darparu cyngor, dogfennau a chyflwyniadau etc. sy’n gyfreithiol gywir.

# Peilot SQE2

54. Cynhaliwyd y ceisiadau ar gyfer peilot SQE2 o fis Awst tan fis Medi 2019, a chynhaliwyd y peilot ym mis Rhagfyr gyda 167 o ymgeiswyr. Rydym wedi cyhoeddi canlyniadau’r cynllun peilot.

55. Yn y cynllun peilot, profwyd prosesau gweithredol a’r math o ymarferion y byddwn yn eu defnyddio yn yr asesiad byw. Ond doed dim bwriad i’r cynllun peilot efelychu'r model terfynol ar gyfer SQE2. Yn hytrach, y bwriad oedd ein helpu i ddod i benderfyniadau ar yr hyn y dylai'r ffurf derfynol fod. Un cwestiwn allweddol a archwiliwyd oedd a ddylai pob ymgeisydd gymryd yr un asesiadau neu a ddylid caniatáu iddynt ddewis y cyd-destun cyfreithiol y byddant yn cael eu hasesu ynddo, i adlewyrchu eu QWE neu eu dyheadau gyrfa yn y dyfodol.

56. At ddibenion y peilot, cymerodd ymgeiswyr 14 o asesiadau sgiliau – saith ar draws y cyd-destunau ymarfer craidd[18] a saith mewn naill ai ymgyfreitha troseddol neu reolau a gweithdrefnau sefydliadau busnes. Dewisodd ymgeiswyr pa un o'r ddau faes hyn roeddent eisiau cael eu hasesu ynddo. Cynlluniwyd y strwythur hwn i'n galluogi i brofi gwahanol fodelau posibl ar gyfer yr asesiad byw, yn benodol a allwn ni safoni asesiadau dewisol a osodir mewn cyd-destunau ymarfer gwahanol neu a allwn sicrhau cysondeb dim ond os yw pob ymgeisydd yn cymryd yr un asesiadau – arholiad unffurf.

57. Buom yn trafod manteision ac anfanteision naill ai cynnig dewis i'r ymgeiswyr neu gael arholiad unffurf, yn helaeth gyda'r rhanddeiliaid yn 2019 a 2020 i ddeall eu barn am yr effaith o ran hyfforddiant a recriwtio. Ym mis Mehefin 2020, ar ôl ystyried yr holl ffactorau, ac yn enwedig yr angen i sicrhau asesiad cyson, cymerodd ein Bwrdd y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r arholiad unffurf. Dyma'r rhesymau dros benderfyniad ein Bwrdd.

- Mae'n gyson â'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer yr hawliau i ymarfer y mae cyfreithwyr yn eu sicrhau wrth gael eu derbyn, gan gydnabod nad yw'r rhain yn gwbl generig ac y gallant amrywio rhwng meysydd ymarfer.

- Mae'n amlwg yn deg i bob ymgeisydd.

- Mae'n bodloni'n hamcan ar gyfer y SQE o fod yn asesiad cyson o'r safonau proffesiynol uchel y mae eu hangen er mwyn ymarfer fel cyfreithiwr, a adlewyrchir yn ein Safon Trothwy.

- Mae'n ategu'n meini prawf o fod yn ddilys, yn ddibynadwy, yn werth am arian ac yn hydrin.

# Gosod y safonau ar gyfer y SQE

58. Mae'r SQE yn cael ei osod yn ôl y safon rydym yn disgwyl i gyfreithiwr ymarfer yn y Safon Trothwy. Bydd pawb sy'n ysgrifennu cwestiynau ac arholwyr yn gyfreithwyr cymwys. Byddwn yn defnyddio methodoleg asesu fodern i osod a chynnal safon gyson:

a) Bydd panel o gyfreithwyr yn adolygu cwestiynau i'w defnyddio yn yr asesiad byw.

b) Byddwn yn defnyddio "panel Angoff" o gyfreithwyr i osod y marc pasio ar gyfer asesiadau FLK.[19]

---

[18] Mae'r cyd-destunau ymarfer craidd yn canolbwyntio'n bennaf ar y meysydd ymarfer neilltuedig, sef: ymarfer troseddol, ymgyfreitha sifil, cyfraith ac ymarfer eiddo, ewyllysiau a phrofiant a chyfraith ac ymarfer busnes.

[19] Dyma ddull o Osod Safonau lle mae panel o feirniaid hyfforddedig yn darparu amcangyfrif o gyfran yr ymgeiswyr lleiaf cymwys a fyddai'n cael pob eitem yn gywir. Defnyddir y wybodaeth wrth osod y marc pasio.

c) Bydd y marc pasio yn cynnwys cyfrifiad o’r Gwall Mesur Safonol, er mwyn mynd â’r pas marcio y tu hwnt i’r lwfans gwallau[20]. Mae hyn yn cynyddu hyder ymhellach mai dim ond y rhai sy'n gymwys sy'n pasio'r SQE.

ch) Byddwn yn mesur pa mor ddibynadwy yw’r asesiad dros amser.[21]

d) Byddwn yn defnyddio methodoleg “atchweliad ffiniol” i osod safon gyson ar gyfer yr asesiadau sgiliau.[22]

dd) Bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi a'u monitro'n ystadegol i sicrhau eu bod yn deall ac yn asesu yn erbyn y safon sy'n ofynnol ar gyfer cymhwysedd.

59. Mae’r dulliau hyn yn sicrhau bod asesiadau cyfreithwyr yn cyd-fynd ag arfer gorau mewn asesiadau proffesiynol uchel eraill. Maent yn rhoi sicrwydd uchel mai'r ymgeiswyr sy'n pasio yw'r rhai ddylai basio.

# Profiad gwaith cymhwyso

60. Mae’n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau o leiaf dwy flynedd o brofiad gwaith cymhwyso (QWE). Mae QWE yn cynnwys unrhyw brofiad o weithio mewn gwasanaethau cyfreithiol sy'n cynnig cyfle i ymgeiswyr ddatblygu'r cymwyseddau yn y Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr.

61. Bwriad QWE yw bod yn fwy hyblyg na'r cytundeb hyfforddi presennol, gan helpu i fynd i'r afael â’r oedi gyda’r cytundeb hyfforddi sy'n achosi trafferth i gynifer o ddarpar gyfreithwyr. Bydd yn cynnig cyfleoedd i unigolion ddysgu drwy brentisiaethau, swyddi paragyfreithiol neu leoliadau yn ystod eu rhaglenni gradd. Bydd yn rhoi cyfleoedd i gwmnïau gynnig profiad gwaith mewn amgylchiadau lle - oherwydd eu maint, adnoddau, neu feysydd arbenigol yn y gyfraith - efallai na fyddan nhw'n gallu darparu cytundeb hyfforddi llawn. Gall cwmnïau sy'n dymuno parhau i gynnig contractau i hyfforddi fel cyfreithiwr barhau i wneud hynny wrth reswm.

62. Yn y system bresennol, rhaid i gytundebau hyfforddi gael eu cymeradwyo gan Bennaeth Hyfforddi. Er mwyn gwneud hynny - ac i benderfynu a yw unigolyn yn gymwys i gael ei dderbyn fel cyfreithiwr - rhaid i'r Pennaeth Hyfforddi asesu cymhwysedd yr unigolyn i ymarfer. Ar draws y miloedd o gwmnïau hyfforddi, nid oes proses ar gyfer meincnodi na safoni'r penderfyniad hwn. Yn ymarferol, mae'n hynod anarferol i unigolyn beidio â chael ei gymeradwyo. Fel y nodir ym mharagraff 16c, mae

[20] Mae pob mesur yn cynnwys ffin gwall, sef y gwahaniaeth posibl rhwng sgôr go iawn a sgôr a arsylwyd. Mae'r Gwall Mesur Safonol yn meintioli'r gwall hwnnw i roi hyder i ganlyniadau asesu.
[21] Dibynadwyedd yw'r cysondeb y gall asesiad atgynhyrchu'r un canlyniadau. Mae alpha Cronbach (α) yn fesur ystadegol a ddefnyddir i amcangyfrif cysondeb neu ddibynadwyedd mewnol.
[22] Mae Atchweliad Ffiniol yn ddull o osod safonau lle mae beirniad yn gosod sgôr a gradd safonol ar gyfer pob ymgeisydd. Mae sgoriau pob ymgeisydd yn cael eu plotio ochr yn ochr â’u graddau, a thynnir llinell ffit orau (atchweliad llinol) trwy'r data. Mae'r toriad wedi'i osod ar y sgôr lle mae'r llinell atchweliad hon yn croesi'r radd ffiniol.

hyn yn broblem oherwydd ni allwn fod yn siŵr bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ochr yn ochr ag asesiad cyson o gymhwysedd proffesiynol.

63. O dan y trefniadau newydd, y SQE fydd yn darparu'r asesiad cymhwysedd. Ni fydd cymeradwyo'r QWE yn cynnwys unrhyw asesiad cymhwysedd. Yn hytrach, mae'n dangos bod:

- y cyfnod o brofiad gwaith wedi'i gwblhau
- bod y profiad gwaith wedi rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddatblygu rhai neu'r cyfan o'r cymwyseddau rhagnodedig ar gyfer cyfreithwyr (h.y. y rheini a nodir yn y Datganiad o Gymhwysedd Cyfreithwyr)
- na chododd unrhyw broblemau yn ystod y cyfnod o brofiad gwaith sy'n codi cwestiwn ynglŷn â chymeriad ac addasrwydd yr ymgeisydd i gael ei dderbyn fel cyfreithiwr*.*

# Goruchwylio a chymeradwyo

64. Rhaid i QWE gael ei gymeradwyo gan gyfreithiwr, a allai fod yn Swyddog Cydymffurfio Ymarfer y Gyfraith. Ni fyddwn bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau gael Pennaeth Hyfforddi (er y gall cwmnïau sy'n dymuno gwneud hynny barhau i wneud hynny). Er ein bod yn disgwyl, yn y rhan fwyaf o achosion, y bydd cyfreithwyr sy'n cymeradwyo profiad gwaith yn gweithio yn yr un sefydliad â'r ymgeisydd sy'n ceisio cael mynediad; nid yw hynny'n ofyniad. Ond, lle nad yw'r cyfreithiwr yn gweithio yn yr un sefydliad â'r ymgeisydd, mae rheoliadau'r SQE yn cynnwys mesurau diogelwch ychwanegol: rhaid i'r cyfreithiwr gael profiad uniongyrchol o waith yr ymgeisydd, er enghraifft, drwy adolygu dyddiadur hyfforddi neu bortffolio gwaith a derbyn adborth gan oruchwyliwr uniongyrchol yr ymgeisydd.

65. Rydym yn disgwyl i'r rheini sy'n gwneud QWE gael eu goruchwylio'n iawn. Mae ein Safonau a'n Rheoliadau yn gofyn i gwmnïau a chyfreithwyr oruchwylio gweithwyr neu'r rhai y maent yn eu rheoli ac i sicrhau eu bod yn gymwys i gyflawni eu rôl. Mae torri'r rhwymedigaethau hyn yn fater disgyblu lle gallwn, ac y byddwn, yn cymryd camau gorfodi. Rydym yn gwybod nad yw rhai hyfforddeion wedi'u hyfforddi'n dda yn y system bresennol neu, yn waeth byth, yn profi diwylliant gwenwynig yn y gweithle. Mae ein Safonau a'n Rheoliadau hefyd yn gwahardd cyfreithwyr a chwmnïau rhag manteisio'n annheg ar gleientiaid a thrydydd partïon - sy'n cynnwys hyfforddeion ac, yn y dyfodol, unrhyw un sy'n ennill QWE. Lle darperir QWE drwy nifer o leoliadau o dan faner sefydliad hyfforddi, fel prifysgol, gellir cynnig dulliau amddiffyn a chefnogaeth ychwanegol i sicrhau bod y lleoliadau'n cael eu gwerthuso ac yr adlewyrchir ar y dysgu.

66. Byddwn yn cyhoeddi data ar berfformiad ymgeiswyr yn y SQE, gan gynnwys SQE2. Bydd hyn yn helpu cyflogwyr i werthuso effeithiolrwydd eu hyfforddiant. Bydd hefyd yn helpu ymgeiswyr i nodi cwmnïau sy'n cynnig hyfforddiant effeithiol.

67. Bydd hyblygrwydd newydd QWE yn golygu na fyddwn yn gallu rhagnodi mwyach sut dylai cwmnïau hyfforddi cyfreithwyr y dyfodol. Rydym yn gwybod y byddai cwmnïau ac ymgeiswyr yn croesawu mwy o wybodaeth ynglŷn â sut bydd yn gweithio. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi adnoddau ar ein gwefan a fydd yn hyrwyddo arfer da ac yn helpu ymgeiswyr a chyflogwyr i ddeall beth yw QWE o ansawdd da. Rydym yn croesawu cyfraniad sefydliadau eraill wrth gynnig gwybodaeth i arwain QWE o ansawdd da ac rydym yn ddiolchgar i Gymdeithas y Cyfreithwyr ac Is-adran y Cyfreithwyr Iau am gytuno i gydweithio yn y maes hwn.

## Cost

68. Rydym yn ymwybodol y gall cymhwyso o dan y system bresennol fod yn gostus, ac efallai bod hynny'n rhwystro rhai ymgeiswyr talentog rhag cael mynediad i fod yn gyfreithiwr. Mae'r LPC yn costio hyd at £17,300 (yn Awst 2020) ac nid yw'n cynnig unrhyw sicrwydd o gytundeb hyfforddi. Mae hyn yn ychwanegol at ffioedd israddedig, ac i'r rheini sydd heb radd yn y gyfraith, tua £10,000 ar gyfer y GDL. Mae'n rhaid i gwmnïau hefyd dalu £1,500–£2,000 ar gyfer y Cwrs Sgiliau Proffesiynol.

69. Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddwyd gwybodaeth am gost ddangosol sefyll y SQE. Dywedwyd y byddai cyfanswm cost SQE1 ac SQE2 rhwng £3,000 a £4,500.

70. Erbyn hyn rydym wedi cyhoeddi y bydd y ffi am sefyll y ddau asesiad SQE, pan gaiff ei gyflwyno ym mis Medi 2021, yn £3,980. Bydd hyn yn cynnwys:

- SQE1 – gyda ffi o £1,588 am y ddau arholiad, sy'n cynnwys 180 o gwestiynau a fydd i gyd yn profi gwybodaeth gyfreithiol ymarferol yr ymgeiswyr.
- SQE2 – gyda ffi o £2,422 am y tasgau ysgrifenedig a llafar yn profi gwybodaeth a sgiliau cyfreithiol ymarferol.

71. Gellir cymharu hynny ag asesiadau proffesiynol eraill, ar sail amser fesul prawf. Bydd cost unrhyw hyfforddiant, y mae rhywfaint ohono'n ddewisol, yn ychwanegol. Bydd ystod eang o fodelau hyfforddi a phwyntiau pris, gan gynnwys graddau yn y gyfraith sy'n cynnwys SQE, prentisiaethau a ariennir drwy'r ardoll brentisiaethau ac sy'n caniatáu i bobl ennill cyflog wrth hyfforddi, cyrsiau hyfforddi sy'n canolbwyntio'n benodol ar SQE i raddedigion y gyfraith a'r rheini sydd heb radd yn y gyfraith, a rhaglenni cyfreithiol proffesiynol ôl-raddedig newydd, sy'n fwy cynhwysfawr na'r GDL presennol. Bydd rhai o'r opsiynau hyn yn sylweddol rhatach na'r llwybr cyfredol at fynediad. Mae Atodiad 2 yn dangos rhai llwybrau SQE dangosol tuag at fynediad. Pan fydd ymgeisydd yn hyfforddi drwy gyfuniad o radd yn y gyfraith sy'n integreiddio gwaith paratoi SQE1, a QWE yn integreiddio gwaith paratoi SQE 2, nid oes cost hyfforddi ychwanegol. Pan fydd angen hyfforddiant SQE ar ymgeisydd y tu hwnt i radd yn y

gyfraith a’r QWE, arwyddion cynnar y farchnad yw y gall costau hyfforddi fod tua £7,000.[23]

72. Mae strwythur y SQE yn helpu i fynd i’r afael â’r “gambl LPC”. Er bod rhai pobl yn cael cytundeb hyfforddi cyn cymryd LPC, mae nifer o bobl ddim. Mae hyn yn golygu cymryd risg o dalu hyd at £17,300 ar gyfer y LPC, na fyddent o bosibl yn ei basio, ac yn peryglu methu â sicrhau cytundeb hyfforddi. Gyda thua 10,000 o ymgeiswyr y flwyddyn yn cymryd y LPC a 6,000 o gytundebau hyfforddi, mae pedwar o bob 10 darpar gyfreithiwr yn colli’r gambl. Mae SQE1 yn asesiad dysgu cyn-gwaith cychwynnol llawer rhatach.

73. Felly pan fydd y SQE yn cael ei gyflwyno, y risg i’r ymgeiswyr yw £1,558 (yn ogystal ag unrhyw gostau hyfforddi maen nhw’n dewis gwario). Mae hynny'n ddefnyddiol i bobl sy'n ceisio ymuno â'r proffesiwn, yn enwedig ymgeiswyr o gefndiroedd llai cefnog. Bydd cyllid y llywodraeth drwy'r system benthyciadau myfyrwyr ar gael ar gyfer cyrsiau prifysgol (LLB neu LLM[24]) sy’n cynnwys gwaith paratoi SQE. Ac, wrth gwrs, mae cost hyfforddi ac asesu yn cael ei thalu'n llwyr gan y llwybr prentisiaeth.

74. Nid oes arian benthyciad myfyrwyr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cost yr asesiad SQE ei hun, nac ychwaith am gost cyrsiau preifat y gall ymgeisydd ddewis eu dilyn. Serch hynny, mae'r gost ymlaen llaw, fel y nodir uchod, yn sylweddol is ac mae'r SQE yn cynnig hyblygrwydd go iawn (e.e. hyfforddiant ar-lein neu ddulliau integredig sy'n cyfuno dysgu yn yr ystafell ddosbarth a'r gweithle), gan ddarparu mwy o gyfle i “ennill wrth ddysgu”.

# SQE yn Gymraeg

75. Mae Cymru a Lloegr yn awdurdodaeth ddwyieithog, ac mae mynediad at wasanaethau cyfreithiol yn newis iaith defnyddwyr yn rhywbeth rydym am ei gefnogi. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o asiantaethau yng Nghymru, mae ein Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd yng Nghymru, ac rydym yn darparu cyhoeddiadau allweddol yn Gymraeg, yn ogystal â dros 750 o dystysgrifau ymarfer yn Gymraeg bob blwyddyn. Ar hyn o bryd, nid ydym yn sefydliad sy’n cael ei restru ym Mesur y Gymraeg, felly nid ydym o dan rwymedigaeth i ddarparu ein gwasanaethau yn Gymraeg.[25]

76. Mae'n glir bod defnyddio'r Gymraeg yn rhan sylfaenol o dirlun Cymru. Darparu gwasanaethau Cymraeg yw un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae ei strategaeth – Cymraeg 2050 – yn anelu at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, drwy hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

77. Cyhoeddodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ei adroddiad *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru* ar ddiwedd mis Hydref. Argymhellodd: “Mae'n rhaid bod

[23] Mae BARBRI International wedi amcangyfrif ei ffioedd SQE1 a 2, sef £7,000.
[24] Gradd Meistr yn y Gyfraith.
[25] Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

addysg gyfreithiol broffesiynol i'r rhai sydd am ymarfer yng Nghymru ar gael yn Gymraeg, gan sicrhau'n raddol y bydd pob arholiad proffesiynol ar gael yn Gymraeg”.

78. Rydym wedi ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid yng Nghymru. Yn ystod yr hydref a'r gaeaf, cynhaliwyd cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol[26] a CBAC[27]. Cafwyd cyfarfodydd â Chomisiynydd Cyfiawnder Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Cwnsler Cyffredinol Cymru a swyddogion o Lywodraeth Cymru.

79. Rydym wedi ysgrifennu at bob un o'r chwe phrifysgol yng Nghymru sy'n dysgu graddau yn y gyfraith a/neu'r cwrs ymarfer cyfreithiol i holi am eu darpariaeth Gymraeg. Rydym wedi cyfarfod â staff a myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Abertawe. Rydym wedi siarad â'r gwasanaeth cyfieithu yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yng Nghaernarfon ac â'r uned gyfieithu yng Nghanolfan Gwasanaethau Cymraeg Prifysgol Bangor. Mae cyfraniad yr holl sefydliadau yr ydym wedi trafod y SQE gyda nhw wedi bod yn hynod werthfawr.

80. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at yr holl gyfreithwyr Cymraeg eu hiaith i ofyn a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael eu penodi'n aseswyr dwyieithog SQE2. Dywedodd 97 wrthym y byddai ganddynt ddiddordeb, ac maent yn rhychwantu’r ystod lawn o feysydd ymarfer.

81. Rydym eisoes wedi ymrwymo i ddarparu canolfannau asesu SQE1 a SQE2 yng Nghymru.

82. Rydym yn gwybod bod tua 100 o fyfyrwyr yn astudio rhan o’r QLD yn Gymraeg neu’n gyfan gwbl yn Gymraeg. Ni fydd pob un o'r rhain yn dymuno cymhwyso fel cyfreithiwr - yn gyffredinol, dim ond tua chwarter o fyfyrwyr QLD sy’n gwneud hynny. Serch hynny, gall rhai sydd heb radd yn y gyfraith sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd gymhwyso. Nid ydym yn ymwybodol bod y LPC yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. [28] Mae trafodaeth â rhanddeiliaid yng Nghymru yn awgrymu, o'r tua 10,000 o’r ymgeiswyr SQE blynyddol posib yng Nghymru a Lloegr, gall fod cronfa bosib o tua 50 o ymgeiswyr a allai fod â diddordeb mewn cymryd y SQE yn Gymraeg, unwaith fydd y SQE wedi’i weithredu’n llawn.

83. Ym mis Mehefin 2020 cytunodd ein Bwrdd y byddwn yn cyflwyno'r SQE yn Gymraeg fesul cam, gan arwain at gydraddoldeb llawn rhwng y Gymraeg a’r Saesneg erbyn blwyddyn pedwar y SQE. Mae hyn yn cyd-fynd â’r dull a awgrymwyd gan Gomisiwn Cyfiawnder Cymru[29]. Bydd dull cynyddrannol yn adlewyrchu cyflwyniad graddol arfaethedig y SQE. Fel yr eglurwn ym mharagraff 73 isod, mae’r trefniadau trosiannol

---

[26] Sefydlwyd y Coleg gan Lywodraeth Cymru i weithio gyda phrifysgolion yng Nghymru i ddatblygu cyrsiau ac adnoddau Cymraeg i fyfyrwyr.

[27] Bwrdd arholiadau TGAU a Safon Uwch Cymru.

[28] Ers cyflwyno’r LPC yn 1993, rydym yn ymwybodol o un myfyriwr LPC sydd wedi’i asesu mewn eiriolaeth a chyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg.

[29] Argymhellodd Adroddiad Comisiwn Cyfiawnder Cymru, Hydref 2019, pennod 11: “*sicrhau'n raddol y bydd pob arholiad proffesiynol ar gael yn Gymraeg.”*

ar gyfer cyflwyno'r SQE yn galluogi pobl sydd eisoes yn rhan o'r system bresennol i ddewis p'un ai i gwblhau'r llwybr i fynediad y maent eisoes wedi cychwyn arno neu i gymryd y llwybr SQE. Felly, rydym yn disgwyl i'r niferoedd sy'n cymryd y SEQ1 pan gaiff ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2021 fod yn fach. Disgwyliwn hefyd y bydd y niferoedd sy'n cymryd yr asesiadau sgiliau llafar (a fydd yn rhedeg am y tro cyntaf yn 2022) yn cymryd mwy o amser i gynyddu oherwydd bod yn rhaid i ymgeiswyr basio SQE1 yn gyntaf, ac yna bydd nifer eisiau cwblhau QWE cyn rhoi cynnig ar SQE2. Ni fyddem yn disgwyl unrhyw alw sylweddol am asesiadau sgiliau llafar yn Gymraeg tan tua 2023, a gyda'r cyfnod pontio yn para tan 2032, gall y galw gymryd mwy o amser i gyrraedd lefel gyson.

84. Dyma'r cyfnodau gweithredu ar gyfer cynnig y SQE yn Gymraeg.

- Cyfnod 1: 2021 (o ddechrau'r SQE). Caiff ymgeiswyr ddarparu eu hymatebion i asesiadau ysgrifenedig yn Gymraeg
- Cyfnod 2: 2022/3 (yn ail flwyddyn y SQE). Caiff yr ymgeiswyr ddarparu eu hymatebion i asesiadau llafar ac ysgrifenedig SQE2 yn Gymraeg
- Cyfnod 3: 2023/4 (trydedd flwyddyn y SQE). Bydd cwestiynau'r asesiadau sgiliau llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, a chaiff yr ymgeiswyr ymateb yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu cydraddoldeb llwyr ar gyfer SQE2.
- Cyfnod 4: 2024/5 (pedwaredd flwyddyn y SQE). Dechrau cyfieithu cwestiynau FLK. Cydraddoldeb llawn wedi'i sicrhau ar gyfer SQE1 ac SQE2 o fewn pedair blynedd ar ôl cyflwyno'r SQE.

# Asesiad Risg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

85. Mae'n bwysig y gall y SQE chwarae rhan wrth gefnogi amrywiaeth yn y proffesiwn a'i fod yn asesiad teg a chadarn i bawb. Cynhaliwyd a chyhoeddwyd asesiad risg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant SQE cynhwysfawr fel rhan o'n hail ymgynghoriad yn 2016/17. Comisiynwyd hefyd adroddiad gan y Bridge Group ynglŷn â sut gallem ddefnyddio'r SQE i wella amrywiaeth y proffesiwn.

86. Ers hynny, rydym wedi bod yn datblygu manylion yr asesiadau SQE gan roi ystyriaeth fanwl i'r risgiau a'r cyfleoedd hynny. Ac mae'r Bridge Group wedi llunio adroddiad wedi'i ddiweddaru yng ngoleuni'r cynnydd ar ddatblygu'r SQE ar sail ei drafodaethau gyda grwpiau allweddol, fel Is-adran y Cyfreithwyr Iau. Mae'r Bridge Group yn dweud, er nad yw cyflwyno'r SQE yn gallu mynd i'r afael â'r holl ffactorau sy'n arwain at ddiffyg amrywiaeth ymhlith y proffesiwn cyfreithwyr, y gallai helpu

87. Erbyn hyn, rydym wedi cyhoeddi asesiad risg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant terfynol, yn cynnwys adborth gan filoedd o randdeiliaid ac yn ystyried adroddiad y Bridge Group a ddiweddarwyd. Daeth ein hasesiad risg terfynol i'r casgliad bod manteision y SQE ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn drech na'r risgiau.

88. Mae'n hasesiad risg yn nodi buddion a risgiau o dan dri maes allweddol: cost, tegwch a mynediad. Mae hefyd yn cnnig amryw o fesurau lliniaru i reoli'r risgiau hyn. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau sy'n parhau i lywio penderfyniadau ynglŷn â diwyg asesiadau.

89. O ran cost, rydym bellach wedi cyhoeddi ffioedd ymgeiswyr ar gyfer asesiadau'r SQE (a nodir ym mharagraff 70). Fel y nodwyd hefyd, mae gwybodaeth am gostau hyfforddi yn dechrau dod i'r amlwg, sy'n cynnwys opsiynau sy'n sylweddol rhatach na'r llwybrau traddodiadol.

90. Mae'r hyblygrwydd mewn hyfforddiant y mae'r SQE yn ei gynnig yn rhoi cyfleoedd am gronfa mwy amrywiol o ymgeiswyr.

a) Dylai gweithio'n hyblyg a dysgu mewn ffyrdd sy'n gweddu i anghenion unigolion helpu ymgeiswyr sydd ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu.

b) Dylai cael gwared ar y gofyniad am gyrsiau astudio estynedig gorfodol, hyd yn oed i'r rheini sydd â phrofiad gwaith ymarferol sylweddol, helpu ymgeiswyr aeddfed.

c) Mae'r SQE yn lleihau'r risg bod pobl yn penderfynu peidio cymhwyso oherwydd maint yr ymrwymiad ariannol a'r ymrwymiad amser a'r risg o oedi gyda'r cytundeb hyfforddi.

ch) Bydd gwybodaeth safonol am berfformiad SQE yn helpu cyflogwyr i ddod o hyd i dalent. Yn benodol, bydd yn:

i. lleihau'r risg y bydd cyflogwyr yn dibynnu ar brocsi fel enw da'r brifysgol neu ganlyniadau Safon Uwch.

ii. galluogi mwy o hyblygrwydd wrth hyfforddi drwy ddilysu ffyrdd arloesol o hyfforddi, fel y llwybrau prentisiaeth newydd.

91. Bydd yr ystod lawn o addasiadau rhesymol ar gael i'r rheini ag anghenion penodol. Mae gan Kaplan flynyddoedd lawer o brofiad o wneud addasiadau rhesymol i ymgeiswyr ag anableddau, drwy ei gysylltiad ag asesiadau QLTS. O ran addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud, mae enghreifftiau o arferion ar y QLTS yn cynnwys: cyfnodau egwyl, addasiadau i sgrin y cyfrifiadur, darparu amanuensis, goruchwyliaeth ar wahân, asesiadau wedi'u harwyddo, defnyddio addasiadau tâp sain, addasiadau i asesiadau, ail-drefnu asesiadau. Bydd canolfannau profi yn hygyrch. Bydd pob canolfan asesu SQE yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb cymwys ac yn hygyrch i ymgeiswyr â gofynion arbennig (er enghraifft, symudedd cyfyngedig). Bydd mwy o wybodaeth ar gael cyn hir, gan gynnwys polisi Addasiadau Rhesymol SQE,

astudiaethau achos enghreifftiol, gwybodaeth am y broses dan sylw a ble mae modd dod o hyd i adnoddau ategol, er enghraifft i helpu gyda theithio.

92. Rydym yn cydnabod yr her ym myd addysg uwch o ran perfformiad yn ôl gwahanol nodweddion gwarchodedig.[30] Dyma'r sefyllfa hefyd mewn arholiadau proffesiynol, er enghraifft, gyda chymwysterau meddygaeth[31], fferylliaeth[32], pensaernïaeth[33] a bargyfreithiwr[34].

93. O ran y llwybr domestig cyfredol i gael mynediad i fod yn gyfreithiwr, mae tanberfformio cyson yn ôl ethnigrwydd yn y GDL a'r LPC. Er enghraifft, ym mlwyddyn academaidd 2017/18 (y diweddaraf lle ceir data ar ei chyfer) roedd cyfraddau cwblhau GDL fel a ganlyn:

- myfyrwyr gwyn: 68%
- myfyrwyr Asiaidd/myfyrwyr Asiaidd Brydeinig: 49%
- Du (Affricanaidd/Caribïaidd /Du Prydeinig): 43%.

Ar gyfer y LPC, y cyfraddau cwblhau oedd:

- myfyrwyr gwyn 66%
- myfyrwyr Asiaidd/ myfyrwyr Asiaidd Brydeinig: 48%
- myfyrwyr du: 35% .

94. Roedd patrymau perfformiad peilot SQE1 yn debyg. Mae'n bwysig cydnabod maint cymharol fach y sampl ar gyfer peilot SQE1, yn enwedig ar ôl i'r garfan o ymgeiswyr gael ei rhannu'n is-grwpiau gwahanol. Serch hynny, o fewn y garfan o ymgeiswyr a safodd yr asesiad sgiliau peilot SQE1, dangosodd y dadansoddiad o edrych ar ystod o nodweddion gwarchodedig fod ymgeiswyr BAME wedi perfformio'n waeth nag ymgeiswyr gwyn.[35] Rydym yn adolygu diwyg yr asesiad yng ngoleuni'r canfyddiadau i sicrhau mwy o gywirdeb mewn penderfyniadau asesu o amgylch y ffin pasio/methu.

---

30 Universities UK: Closing the Gap
31 "Myfyrwyr Meddygol: adolygiad systematig a meta-ddadansoddi": "Mae gwahaniaethau ethnig mewn perfformiad academaidd yn gyffredin ar draws ysgolion meddygol gwahanol, gwahanol fathau o arholiadau, ac mewn israddedigion ac ôl-raddedigion. Mae hyn wedi parhau ers nifer o flynyddoedd ac ni ellir ei weld fel problem annodweddiadol neu leol. Mae angen i ni gydnabod hyn fel mater sy'n debygol o effeithio ar holl addysg feddygol ac addysg uwch y DU. Mae angen gwybodaeth fanylach i olrhain y broblem yn ogystal ag ymchwil bellach i'w hachosion."
32 Perfformiad Rheoleiddio Fferyllol – Dadansoddiad fesul Nodweddion
33 RIBA (Ystadegau Addysg 2017-18)
34 Ystadegau Allweddol BPTC 2019, Dadansoddiad o fyfyrwyr dros dair blynedd academaidd
35 Edrychwyd hefyd ar farcwyr symudedd cymdeithasol (addysg rhieni a'r ysgol a fynychwyd). Ymhlith y garfan beilot ni welwyd unrhyw batrwm o ran cysylltiad rhwng perfformiad ymgeiswyr a lefel addysg rhieni, ac ni welwyd unrhyw gysylltiad arwyddocaol â'r math o ysgol (er bod y rhai a addysgwyd yn breifat neu a addysgwyd mewn ysgol wladol ddethol yn perfformio ychydig yn well nag eraill). Unwaith eto, mae angen bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau oherwydd maint cymharol fach y sampl.

Serch hynny, mae'r tasgau asesu a ddefnyddir yn y SQE yn cael eu defnyddio'n aml mewn mannau eraill. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth bod unrhyw un o'r dulliau asesu hyn â rhagfarn gynhenid neu fod y canlyniadau'n waeth na'r rhai a welir yn y system LPC bresennol. Ond byddwn yn parhau i adolygu'r ymchwil i gasglu unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

95. Byddwn hefyd yn monitro perfformiad yn ôl nodweddion gwarchodedig ar y SQE yn barhaus, gan ein helpu ni ac eraill i ddeall y patrymau cyrhaeddiad a welir mor eang ar draws addysg uwch ac asesiadau proffesiynol, fel y nodir ym mharagraff 84 ac a drafodir ym mharagraffau 28 a 29. Bydd pob cwestiwn yn cael ei adolygu ar gyfer rhagfarn ddiwylliannol, a bydd pob arholwr yn cael ei hyfforddi i gydnabod rhagfarn ddiarwybod. Bydd y data a gasglwn ynglŷn â pherfformiad gan ddarparwr hyfforddiant yn ein helpu i nodi a lledaenu arfer hyfforddi da yn y maes hwn.

96. Byddwn yn parhau i asesu effeithiau amrywiaeth drwy ein gwaith datblygu a'n gwaith peilot pellach a byddwn yn cynhyrchu asesiad risg pellach cyn i'r SQE fynd yn fyw. Mae hyn eisoes yn rhan o'n cynllun gwaith, yn ogystal â gwerthusiad annibynnol llawn a fydd yn cael ei gynnal ar ôl ei weithredu. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol sy'n gweithio yn y maes hwn.

97. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r ffordd y mae amrywiaeth yn effeithio ar ganlyniadau ar draws y proffesiynau ac yn ystyried a oes potensial ar gyfer ymchwil ar y cyd i'r materion heriol hyn.

# Camau nesaf a gwerthuso

98. Mae gennym fwy i'w wneud a byddwn yn parhau i weithio'n agos ac ar y cyd ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys y proffesiwn, ysgolheigion a lleisiau arbenigol, wrth i ni symud ymlaen. Rydym yn cydnabod y diddordeb eang yn y meysydd allweddol, gan gynnwys cyflwyno'r SQE yng Nghymru a phwysigrwydd proffesiwn amrywiol.

99. Rydym wedi cwblhau'r broses o brofi a threialu SQE yn 2020. Gwnaethom gais i'r BGLl am gymeradwyaeth derfynol i'r SQE ar 31 Gorffennaf 2020. Daw'r rheoliadau SQE i rym ar 1 Medi 2021. Rydym yn parhau ar y trywydd iawn i gyflwyno'r asesiadau SQE byw cyntaf yn nes ymlaen yn yr hydref hwnnw. Gweler Atodiad 3 am amserlen sy'n dangos y cerrig milltir allweddol yn natblygiad y SQE. Yn ymarferol, bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol.

100. Mae'n trefniadau pontio'n cydnabod, pan gyflwynir y SQE, y bydd rhai pobl ran o'r ffordd drwy'r system bresennol. Mae'r trefniadau pontio wedi'u cynllunio i roi cymaint o ddewis â phosibl i ymgeiswyr sydd eisoes yn astudio neu'n hyfforddi i fod yn gyfreithiwr, drwy barhau i gymhwyso drwy'r llwybrau presennol, neu ddewis gwneud y SQE. Mae'n trefniadau pontio'n gymwys i unrhyw un sydd, ar 1 Medi 2021, wedi cwblhau, wedi dechrau, wedi derbyn cynnig i ddechrau neu wedi talu blaendal na ellir ei ad-dalu ar gyfer un o'r canlynol:

- gradd gymwys yn y gyfraith (QLD)
- yr Arholiad Proffesiynol Cyffredin / Diploma Raddedig yn y Gyfraith (CPE)
- y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol
- cyfnod o hyfforddiant cydnabyddedig (a elwir hefyd yn gontract hyfforddi).

Bydd gan unrhyw un sy'n dod o fewn y grŵp hwn tan 31 Rhagfyr 2032 i gymhwyso fel cyfreithiwr o dan y llwybrau presennol, cyn belled â'u bod yn dal ar gael.

101. Rydym yn cadw'r trefniadau pontio dan adolygiad, gan gydnabod effeithiau posibl pandemig Covid-19. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu prifysgolion wrth iddynt baratoi eu rhaglenni SQE newydd tra bôn nhw hefyd yn rhedeg eu cyrsiau QLD a CPE o dan effeithiau Covid-19.

102. Gan hynny, rydym wedi diweddaru'n trefniadau pontio i ymestyn ein proses o ddilysu QLDs a CPEs i gyrsiau sy'n dechrau unrhyw bryd cyn 31 Rhagfyr 2021, ar yr amod bod myfyrwyr yn derbyn eu cynnig ar 31 Awst 2021 neu cyn hynny. Mae hyn yn golygu y gall myfyrwyr sydd wedi derbyn cynnig am QLD neu CPE ar neu cyn 31 Awst 2021, ac sy'n mynd ymlaen i ddechrau eu cwrs ar neu cyn 31 Rhagfyr 2021, ddewis cymhwyso o dan yr hen system tan 2032, neu drwy'r SQE. Mae hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr hyfforddiant a myfyrwyr wrth iddynt gynllunio ar gyfer dechrau gradd yn y gyfraith neu gwrs trosi i'r gyfraith yn 2021. Mae yna drefniadau hefyd ar gyfer y rhai sydd wedi gohirio mynediad i'r cyrsiau hyn o fis Medi 2020 i 2021, yn ogystal â'r rhai sydd wedi derbyn cynnig o gontract hyfforddi erbyn 1 Medi 2021.

103. Rydym yn bwriadu gwerthuso effaith y SQE ochr yn ochr â'n dau ganlyniad arfaethedig:

- mwy o sicrwydd o safonau cyson, uchel ar y pwynt derbyn
- datblygu llwybrau newydd ac amrywiol at gymhwyster, sy'n ymateb i'r farchnad gwasanaethau cyfreithiol cyfnewidiol ac yn hyrwyddo proffesiwn amrywiol drwy gael gwared ar rwystrau artiffisial a rhwystrau na ellir eu cyfiawnhau.

104. Rydym yn bwriadu cyhoeddi data am berfformiad y SQE yn flynyddol. Bydd hyn yn cynnwys: nifer yr ymgeiswyr, marc pasio a chyfradd pasio, dosbarthiad sgoriau ymgeiswyr, perfformiad yn ôl nodwedd warchodedig, cefndir economaidd-gymdeithasol ac addysg a hyfforddiant blaenorol.

105. Pump i saith mlynedd ar ôl cyflwyno'r SQE, byddwn yn cynnal:

- Astudiaeth canfyddiadau (i'w chynnal ddwywaith y flwyddyn), mesur safbwyntiau a chanfyddiadau rhanddeiliaid y SQE.
- Adolygiad o gost gyffredinol y cymhwyster, i gynnwys math a chost yr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer y SQE.
- Ymchwiliad i effaith llwybrau hyfforddi ar ddilyniant gyrfa.


- Ymchwiliad i effaith y SQE ar broffil ethnig a chefndir economaidd-gymdeithasol y proffesiwn.

106. Saith i 10 mlynedd ar ôl cyflwyno’r SQE, byddwn yn cynnal astudiaeth i’w ddilysrwydd rhagfynegol. Mae dilysrwydd rhagfynegol yn cyfeirio at a yw sgoriau’r SQE yn gallu darogan perfformiad cyfreithiwr yn y dyfodol.


107. Bydd y dull hwn yn ein helpu i fonitro'r asesiad a'i effaith ar y farchnad. Mae nifer o fecanweithiau ar gael i ni fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a ddaw i’r amlwg, gan gynnwys darparu canllawiau, diwygio ein rheoliadau a/neu adolygu diwyg yr asesiad. Yn wir, mae asesiad canolog yn ei gwneud hi'n haws i ni addasu diwyg yr asesiad yn gyflymach na system lle caiff yr asesiad ei ddosbarthu ar draws nifer fawr o ddarparwyr.

108. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio i gasglu data perfformiad o fewn y system bresennol, er mwyn cael meincnod ar gyfer gwerthuso'r SQE.

# Atodiad 1 – Llwybrau cyfredol tuag at dderbyniadau



# Atodiad 2 – Opsiynau hyfforddi SQE posib




Rhaid i ymgeiswyr basio SQE1 cyn rhoi cynnig ar SQE2. Ond gall ymgeiswyr integreiddio'r gwaith paratoi ar gyfer SQE1 a SQE2 a phrofiad gwaith cymwys mewn unrhyw ffordd y dymunant. Llwybrau dangosol yn unig yw'r rhain. Rydym yn disgwyl ac yn awyddus i annog gwahanol lwybrau arloesol.

Nid ydym yn achredu darparwyr hyfforddiant SQE.

# Atodiad 3 – Cerrig milltir SQE

